

Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg

**Adolygiad o Gynnydd yn erbyn
Safonau Gofal Iechyd Cymru –
1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2008**

Dyddiad: 1 Medi 2008

Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	iii
1.	Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2.	Proses Aseu 2007-08	5
3.	Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg	10
4.	A gyflawnwyd gwelliannau ar gyfer y Safonau hynny lle yr aseswyd bod Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg yn Ymwybodol neu'n Ymatebol ar un neu fwy o'r tair lefel aseu (Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, Profiad y Defnyddiwr) yn 2006-07?	12
5.	Pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg?	43
6.	Y Camau Nesaf	46
	Atodiadau	
	Atodiad 1: Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd	48
	Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny sy'n agored i ddilysiad annibynnol gan AGIC	50
	Atodiad 3: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny nad ydynt yn agored i ddilysiad annibynnol gan AGIC	56
	Atodiad 4: Y Safonau Gofal Iechyd i Gymru – diffiniadau	60
	Atodiad 5: Rhestr Termau	67

Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 gan gyflwyno fframwaith cyffredin o 32¹ o safonau gyda'r nod o gynorthwyo'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd prydlon ac o ansawdd da a sicrhau lefelau gwell o driniaeth a gofal i ddinasyddion Cymru. O 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru asesu eu hunain yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd yn flynyddol a Byrddau'r sefydliadau hynny sydd â'r cyfrifoldeb pendant am gydymffurfio â'r safonau. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd yr asesiad hwn yn rhoi sail i'w Datganiadau Rheolaeth Fewnol a'u Hadroddiadau Blynyddol.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedyn yn gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu'r broses o brofi a dilysu hunanasesiadau. Nodir manylion y ffordd y cyflawnwyd hyn eleni a'r canfyddiadau sy'n deillio o'n hadolygiad yn Adran 4 prif ran yr adroddiad hwn. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ymhellach ein dull o asesu sefydliadau yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd fel ei fod yn briodol i'r strwythurau newydd fydd yn cael eu sefydlu yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhelir yn ystod hydref 2008.

Eleni hefyd, yn ogystal ag asesu a yw sefydliadau'n bodloni gofynion safonau unigol, rydym wedi ystyried a yw sefydliadau wedi ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd yn eu dulliau llywodraethu a sicrhau mewnol. Y llynedd, roedd Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Bro Morgannwg yn siomedig â'i asesiad yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd, a oedd ond yn cyflwyno lefel o dystiolaeth i gefnogi aeddfedrwydd **Datblygol**² neu uwch ar gyfer 11 o'r 32 safon. Eleni, rydym wedi edrych eto ar 21 safon [Safonau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26 a 28] lle yr aseswyd bod y BILI yn **Ymwybodol** neu'n **Ymatebol** o ran ei gyflwyniad ar gyfer 2006-07 ar un neu fwy o'r lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y

¹ Nodir y 32 safon yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

² Mae'n ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran cyflawni'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 o safonau gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn sicrhau y gellir asesu perfformiad yn erbyn y pum lefel aeddfedrwydd canlynol – Ymwybodol; Ymatebol; Datblygol; Ymarferol ac Arweiniol.

Defnyddiwr. Rydym yn fodlon bod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud yn erbyn 16 o'r 21 safon, ac felly rydym wedi asesu bod BILL Bro Morgannwg ar lefel aeddfedrwydd **Datblygol** neu uwch ar gyfer 16 o'r safonau a ailaseswyd. Mae'n parhau i fod ar lefel aeddfedrwydd **Ymatebol** ar gyfer un neu fwy o'r lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer pum safon [Safonau 9, 13, 16, 17 a 21] a bydd angen iddo ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Ceir tystiolaeth fod y Bwrdd yn adolygu agenda a phroses asesu'r Safonau Gofal lechyd. Cyfarfu'r Prif Weithredwr a dau reolwr arweiniol ag AGIC yn dilyn cyflwyniad y llynedd i drafod ffyrdd o wella ansawdd eu cyflwyniad. Mae'r BILL wedi dechrau cymryd camau i ymsefydlu'r Safonau Gofal lechyd a'u gwneud yn rhan o'i drefniadau llywodraethu. Mae'r cynnydd y mae wedi ei wneud yn erbyn y camau a amlinellwyd yn ei Gynllun Gwella Safonau Gofal lechyd 2007-08 yn dangos ymrwymiad i wella ei lefelau aeddfedrwydd ymhellach ar bob lefel. Darperir manylion pellach am ddulliau'r BILL yn adran 5 yr adroddiad hwn.

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Bro Morgannwg o berfformiad yn 2007-2008 yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru*.

Y Safonau

1.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn cyflwyno fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin i gynorthwyo'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd da ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3 Yn anad dim, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i ddarparu'r lefelau gofal a thriniaeth gwell y mae gan bobl Cymru hawl i'w disgwyl yn rhesymol. Maent felly'n darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd³ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4 Mae *Safonau Gofal Iechyd i Gymru'n* nodi 32 o safonau mewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes hwnnw'n eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf, sef '*Profiad y Claf*' yn nodi:

³ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion unigol a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion, gan y byddant wedi'u cynllunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac y byddant yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes, sef 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil wedi'i asesu'n briodol, yn nodi sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fyddant yn profi oedi afresymol ar unrhyw adeg yn ystod y broses o ddarparu gwasanaethau na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes, sef 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

Y bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn ganolog i'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes, sef 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

Y bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5 Y llynedd, am y tro cyntaf, roedd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG asesu eu hunain yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* a gosodwyd y cyfrifoldeb pendant am sicrhau cydymffurfiad â'r *Safonau* ar Fyrddau'r sefydliadau gofal iechyd. Mae'r broses hunanasesu flynyddol yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* yn allweddol i sicrhau

bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod clefion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicaf oll, y safonau y dylent eu disgwyl. O fis Ebrill 2008 ymlaen, defnyddir yr asesiad hwn fel sail i Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

1.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiadau a'u ffurflenni hunanasesu'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu, profi a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2007-2008 yn yr adran ganlynol.

2. Proses Asesu 2007-08

Yr Hunanasesiad

Mae'r broses hunanasesu'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair gwahanol lefel:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiad â'r safonau'n cael ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*⁴ – sut brofiad mae'r defnyddiwr yn ei gael ac a yw hyn yn gwella?

Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd fel dull asesu ar y we sy'n galluogi hunanasesiadau i gael eu cwblhau ar-lein ac i dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd i bob cwestiwn gael ei lanlwytho. Mae'n ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu ar y lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr fel bod ar un o 5 lefel o aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Mae diffiniadau o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

⁴ Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

9 Mai 2008 oedd y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd hunanasesiadau eleni; gan sicrhau bod terfynau amser yn cyd-fynd â'r cylch adrodd blynyddol a chaniatáu i olwg gyflawn ar drefniadau llywodraethu sefydliadau, a pherfformiad clinigol ac ariannol gael eu derbyn ar union yr un pryd.

Profi a Dilysu

2.4 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu cyflwyniad hunanasesu 2007-08 BILI Bro Morgannwg, ac mae hyn wedi cynnwys:

- *Adolygiad o gynnydd yn erbyn y safonau hynny yr asesodd AGIC fod BILI Bro Morgannwg ddim ond yn Ymwybodol neu'n Ymatebol ynddynt y llynedd, sef:*
 - *Safon 3*
 - *Safon 4*
 - *Safon 5*
 - *Safon 6*
 - *Safon 7*
 - *Safon 8*
 - *Safon 9*
 - *Safon 13*
 - *Safon 14*
 - *Safon 15*
 - *Safon 16*
 - *Safon 17*
 - *Safon 19*
 - *Safon 20*

- *Safon 21*
 - *Safon 22*
 - *Safon 23*
 - *Safon 24*
 - *Safon 25*
 - *Safon 26*
 - *Safon 28*
- *Asesiad o ymrwymiad BILI Bro Morgannwg i'r Safonau Gofal Iechyd i Gymru ac yn enwedig pa mor dda y mae wedi eu hymsefydlu yn ei drefn lywodraethu a'i brosesau sicrhau mewnol.*

Cwblhawyd y camau canlynol er mwyn ein galluogi i ddarparu'r sicrwydd a'r beirniadaethau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn:

- *Cam 1* - Dilysiad pen desg o'r hunanasesiadau a gyflwynwyd yn erbyn pob un o'r safonau uchod. Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi pa un a oedd y cwestiynau oedd yn ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi pa un a oedd yr atebion wedi'u cefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r marc aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* - Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Archwilwyr Mewnol BILI Bro Morgannwg a Swyddfa Ranbarthol De-ddwyrain Cymru i asesu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r gwelliannau a nodwyd yng Nghynllun Gwella 2007-08 BILI Bro Morgannwg ac o ran ymsefydlu'r broses o asesu yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd yn ei drefniadau llywodraethu arferol.
- *Cam 3* - Cynnal Uwchgynhadledd Gofal Iechyd. Yn yr un modd â'r llynedd, fe wnaeth AGIC gydgysylltu a hwyluso cyfarfod, 'Uwchgynhadledd Gofal Iechyd', gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu at y broses o gadarnhau asesiadau.

- *Cam 4* - Cyfarfod gyda chynrychiolwyr Bwrdd BILI Bro Morgannwg i drafod y canfyddiadau a gododd o'r camau uchod ac i roi cyfle i'r Bwrdd hysbysu'r tîm adolygu am y camau y maent yn bwriadu eu cymryd.

3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg

3.1 Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Bro Morgannwg ar 1 Ebrill 2003. Mae'n gwasanaethu ardal ddaearyddol sy'n cydffinio ag ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, ac y mae'n rhannu cyfrifoldeb statudol â'r Cyngor hwnnw am weithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar y cyd. Mae poblogaeth breswyl o 122,000 o bobl ym Mro Morgannwg⁵.

3.2 Prif swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol yw llywodraethu corfforaethol a chlinigol; sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol; sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd; gwella iechyd cymunedau; partneriaeth; ymgysylltu â'r cyhoedd; darparu gwasanaethau.

3.3 Mae Byrddau Iechyd Lleol yn ymwneud â dau fath o bartneriaeth leol ffurfiol:

- Llunio a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles gyda'r Awdurdod Lleol ac mewn ymgynghoriad â phartion eraill.
- Comisiynu gwasanaethau lleol gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys ymddiriedolaethau ysbytai, contractwyr gofal sylfaenol, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol. Mae'r gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

3.4 Mae BILI Bro Morgannwg yn comisiynu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ysbyty sydd eu hangen ar y boblogaeth leol gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ond mae ganddo hefyd gontractau â nifer o Ymddiriedolaethau eraill y GIG yng Nghymru megis Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Caiff rhai gwasanaethau ysbyty arbenigol eu comisiynu gan Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr hefyd pan fo angen hynny.

⁵ Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

4. A gyflawnwyd gwelliannau ar gyfer y Safonau hynny lle yr aseswyd bod BILI Bro Morgannwg yn Ymwybodol neu'n Ymatebol yn 2006-07?

Yn 2006-07, dangosodd BILI Bro Morgannwg ei fod yn gweithredu ar lefel aeddfedrwydd **Datblygol** neu uwch ar gyfer 11 o'r 32 safon. Eleni, rydym wedi edrych eto ar y 21 safon lle yr aseswyd ei fod yn **Ymwybodol** neu'n **Ymatebol** ar un neu fwy o'r lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y defnyddiwr⁶.

Safon 3: *Mae cleifion sydd ag anghenion iechyd brys yn cael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*

S3.1 Fel rhan o'i yn asesiad 2007–08, asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ymwybodol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S3.2 Mae'r BILI wedi dangos ei fod wedi cymryd camau i wella ei aeddfedrwydd o ran y Safon hon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- Adolygiad o dargedau blynyddol gan y tîm rheoli gweithredol a'u cynnwys yn y cynllun gwaith corfforaethol, a gymeradwyir gan y Bwrdd.
- Y Bwrdd yn derbyn adroddiadau perfformiad misol.
- Craffu ar yr adroddiadau perfformiad i asesu sut y mae camau unioni yn cael eu gweithredu.
- Ffurfioli cyfarfodydd perfformiad gyda darparwyr, a chynnwys canlyniadau'r rhain yn yr adroddiad ar berfformiad i'r Bwrdd.

⁶ Mae tabl sy'n cymharu'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer y safonau hynny nad ydym wedi'u hasesu eleni yn erbyn lefelau aeddfedrwydd 2006-07 a ddilyswyd, wedi'i ddarparu yn Atodiad 3.

- Monitro cwynion ynghylch mynediad at wasanaethau, sydd wedyn yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd drwy Adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Sefydlu Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad.
- Sefydlu cyfarfodydd Staff misol lle yr hysbysir staff o berfformiad yn erbyn targedau.
- Sefydlu diweddariad misol o Gerdyn Sgorio Cytbwys y BILI a rennir gyda'r staff.
- Darparu cyfarwyddyd i gontractwyr annibynnol o ran lefelau perfformiad.
- Cyhoeddi adroddiadau perfformiad a Cherdyn Sgorio Cytbwys y BILI ar y Rhyngwyd a sicrhau eu bod ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol.
- Cyflwyno gwybodaeth am berfformiad i grwpiau ffocws cleifion a grwpiau diddordeb arbennig.

S3.3 Er ei bod yn glir bod systemau a phrosesau cadarn wedi eu sefydlu, nid yw'r BILI wedi darparu digon o dystiolaeth o welliant parhaus i gyfiawnhau aeddfedrwydd Ymarferol. Felly, rydym yn asesu bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 4: *Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:*

- a. hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; a*
- ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S4.2 Mae'r BILI wedi dangos bod ganddo'r prosesau a'r strwythurau cyfundrefnol angenrheidiol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â gofynion y Safon hon, gan gynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd.
- Asesiadau risg tân rheolaidd.
- Hyfforddiant iechyd a diogelwch a tân blynyddol i'r staff.
- Swyddogion iechyd a diogelwch a wardeniaid tân penodol sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol.
- Proses asesu risg.
- Polisi Adrodd am Ddigwyddiadau a Pheryglon wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd.
- Gweithgor llywodraethu integredig.
- Cynhelir asesiadau effaith a risg ar gyfer holl bapurau'r Bwrdd a Phwyllgorau.
- Cynllun dirprwyo sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd a phrosesau hysbysu.
- Hyrwyddwr cynllunio ar lefel y Bwrdd.
- Strategaeth Ystadau Gofal Sylfaenol.

S4.3 Mae staff Gofal Sylfaenol yn ymwneud â dylanwadu ar amgylcheddau gofal iechyd sy'n effeithio arnynt. Fodd bynnag, er bod y BILI yn disgrifio dulliau er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaeth allu dylanwadau ar gynllunio a datblygu, ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi hyn. Gall staff y BILI godi pryderon drwy nifer o brosesau gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb y BILI, Adroddiad Blynyddol, y broses Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, a thrwy'r Hyrwyddwr ar lefel y Bwrdd. Mae cylch gorchwyl y Gweithgorau Datblygu Corfforaethol yn nodi'n glir bod gan y grŵp swyddogaeth i'w chyflawni o ran datblygu, gweithredu a monitro'n barhaus Fframwaith Datblygu Corfforaethol cytunedig y BILI, gan gynnwys yr agenda cydraddoldeb yn benodol.

S4.4 Mae strwythurau cyfundrefnol wedi'u sefydlu i sicrhau bod y staff yn gallu cydymffurfio â gofynion diogelwch cyfredol. Fodd bynnag, nid oes dystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn ymwneud â ffactorau amgylcheddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn cytuno, felly, bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd:

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon yn **Ymwybodol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol].*

S5.2 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ynghylch materion glanweithdra a chyfraddau heintiau gan ddefnyddio gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r broses Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, ymweliadau'r gwasanaeth deintyddol ac arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Hefyd, mae cynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu Clinigol y BILI. Mae Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Nyrsys y BILI yn cyfarfod yn rheolaidd â chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaeth i drafod lefelau afiechydon a ddelir wrth gael gofal iechyd. Mae adroddiadau ar achosion o heintiau ar gael i'r cyhoedd drwy bapurau'r Ymddiriedolaeth a Bwrdd y BILI a roddir ar y Rhyngrwyd. Darperir deunyddiau cyhoeddusrwydd i gontractwyr Gofal Sylfaenol a darparwyr gofal annibynnol er mwyn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am hylendid personol da. Mae monitro contractau yn sicrhau bod ymgyrchoedd posteri a chanllawiau golchi dwylo yn cael eu harddangos.

S5.3 Mae'r Bwrdd yn cael gwybod drwy'r tîm rheoli gweithredol am y camau a ddatblygwyd i sicrhau cydymffurfiad ag arweiniad cenedlaethol a safonau glanweithdra. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn cynnal ymweliadau â lleoliadau sylfaenol ac eilaidd a chyflwynir eu hadroddiadau i'r Bwrdd. Mae staff y BILI yn ymweld â chontractwyr gofal sylfaenol er mwyn cynnal archwiliadau i sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant priodol. Caiff pryderon ynghylch lefelau hylendid a

glanweithdra eu monitro hefyd drwy'r broses gwynion, arolygon boddhad cleifion a phrosesau monitro.

S5.4 Mae'r Strategaeth Ystadau Gofal Iechyd Integredig ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu: Rhaglen ar gyfer gwella'r gwasanaeth iechyd, yn bolisiau cynhwysfawr. Mae'r broses o Achredu darparwyr Gofal Sylfaenol i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau lleol ychwanegol, yn cynnwys proses lle y mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn sicrhau bod mesurau priodol wedi'u sefydlu i atal a rheoli heintiau. Archwilir safleoedd contractwyr Gofal Sylfaenol fel rhan o'r gwaith adolygu contractau a chaiff diffygion mewn amgylcheddau gofal iechyd a mesurau i atal a rheoli heintiau eu nodi gyda'r unigolyn priodol. Yna, bydd rhaid i bractisiau ddangos bod camau unioni angenrheidiol, i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir, wedi eu cymryd er mwyn adfer achrediad.

S5.5 Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i roi sylw i faterion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau a phrosesau strategol, ac mae trefniadau monitro wedi eu sefydlu. Felly, rydym yn ystyried bod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, nid yw'r BILL wedi dangos eto bod gwaith gwerthuso a meincnodi wedi ei gynnal na bod gwelliant parhaus wedi ei gyflawni.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalcwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd;*
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac*
- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar ddewisiadau yn ymwneud â'u gofal*

S6.1 Asesodd y BILL ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILL ar gyfer y Safon yn **Ymwybodol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol].*

S6.2 Mae'r BILI wedi cymryd camau i wella ei aeddfedrwydd o ran y Safon hon, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Bwrdd yn cymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu yn flynyddol.
- Sefydlu Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth sy'n amlinellu'r wybodaeth y sicrhau ei bod ar gael fel mater o drefn a thrwy ba gyfrwng y mae ar gael.
- Cymeradwyo'n flynyddol y Cynlluniau Cydraddoldeb sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg, Hil ac Anabledd, ac mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod y ddarpariaeth o wybodaeth yn adlewyrchu anghenion diwylliannol a chorfforol amrywiol y boblogaeth leol.
- Cymeradwyo gweithdrefn ymgynghori cyhoeddus sydd wedi ei datblygu ar y cyd â'r Cyngor Iechyd Cymuned, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am ddatblygiadau gwasanaeth yn cael ei chyfleu yn unol â gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC).

S6.5 Mae'r broses Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn gyfleus mewn lleoliadau contractwyr gofal sylfaenol. Mae gan bob practis meddygon teulu system Technoleg Gwybodaeth (TG) newydd sy'n caniatáu i'r meddyg teulu argraffu cynlluniau gofal a phapurau cyngor i gleifion sy'n rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt am eu cyflwr, eu gofal a'u triniaeth. Mae Tîm Gofal ac Asesu Integredig wedi ei ffurfio mewn un ardal i gefnogi Cartrefi Gofal a chleifion sydd â chyflyrau tymor hir, sy'n cynnwys cyfeirio cleifion, gofalwyr a'u teuluoedd at wasanaethau priodol mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Mae llyfrynnau gwybodaeth a dyddiaduron ar gyfer Diabetes, Epilepsi a Chymhareb Ryngwladol wedi'i Normaleiddio (INR) wedi eu datblygu i helpu cleifion a'u gofalwyr i wneud penderfyniadau am brosesau hunanofal a hunanreoli.

S6.4 Mae systemau a phrosesau wedi'u sefydlu i roi cyfle i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar ddewisiadau gofal trwy'r broses Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, y Broses Asesu Unedig, y Broses Rheoli Afiechydon Cronig a thrwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda gwasanaethau eiriolaeth. Cynhelir dadansoddiad o anghenion hyfforddi ddwywaith y flwyddyn ac mae amser dysgu

wedi'i neilltuo yn rhoi amser i'r staff ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae grwpiau cynllunio a Fforymau Defnyddwyr yn rhoi cyfle i staff a defnyddwyr gwasanaeth gyfarfod i drafod dulliau sy'n ymwneud â gofal. Gall cleifion sydd ag anghenion amrywiol drafod eu gofal o ganlyniad i'r dulliau a sefydlwyd fel rhan o'r:

- Rhaglen Cleifion Arbenigol.
- Llwybr Strôc y BILI.
- Y broses asesu unedig.

S6.5 Ystyriwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y Safon hon gan fod angen mwy o dystiolaeth o gynnal gwaith gwerthuso a meincnodi i gyfiawnhau asesiad aeddfedrwydd Ymarferol.

Safon 7

Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain

S7.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon yn **Ymwybodol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S7.2 Er mwyn helpu'r BILI i gydymffurfio â'r Safon hon, mae wedi sefydlu'r canlynol:

- Swyddog Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd a Hyrwyddwr Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd nad yw'n Swyddog ar lefel y Bwrdd.
- Adnodd penodol ar gyfer darparu'r Rhaglen Cleifion Arbenigol.
- Strategaeth Deleofal.
- Hyfforddiant ynglŷn â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol a gomisiynwyd.

- Comisiynu gwasanaeth gan y cyn Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg sy'n caniatáu i gleifion drefnu apwyntiadau dilynol pan fyddant yn teimlo bod eu cyflwr wedi newid a bod angen iddynt weld eu harbenigwr.
- Cynnwys y model 'Blwyddyn Gofal' mewn modelau gwasanaeth a gytunir gan y BILI ynglŷn â chyflyrau cronig. Mae'r model hwn yn dangos sut y mae cleifion yn 'cytuno ar gontract' o ran eu hymrwymiad i reoli cyflwr tymor hir.
- Mae Gweithgor Cyflyrau Cronig wedi datblygu llwybrau gofal a modelau gwasanaeth gyda chyfraniad defnyddwyr gwasanaeth.

S7.3 Darperir hyfforddiant a chymorth i'r staff ac mae'r hyfforddiant a ddarperir yn ymwneud â'r Broses Asesu Unedig, Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd, y model 'Blwyddyn Gofal' ar gyfer cyflyrau cronig, rhaglenni'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) sy'n ymwneud â chefnogi gwaith ailgynllunio a gwella gwasanaethau, a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae fframwaith Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd y BILI yn dangos sut y mae'r BILI yn ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn cyfrannu at ei gynlluniau comisiynu. Mae Gweithgor Cyflyrau Cronig y BILI wedi datblygu llwybrau gofal a modelau gwasanaeth gyda chyfraniad defnyddwyr gwasanaeth ac mae'r BILI yn cadeirio'r Grŵp Cynghori Lleol ynghylch Diabetes sydd â chynrychiolaeth gref gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac sy'n cyfrannu at gomisiynu gwasanaethau diabetes.

S7.4 Darparwyd nifer o enghreifftiau i ddangos sut y mae safbwyntiau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at gynlluniau gwasanaeth ar gyfer iechyd meddwl trwy wasanaethau eiriolaeth a chefnogi defnyddwyr a gomisiynwyd gan y BILI.
- Arolwg a gynhaliwyd i ganfod yr hyn sy'n bwysig i famau beichiog wrth ddewis ysbyty.
- Arolwg o gleifion mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys i gael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros eu presenoldeb er mwyn cyfrannu at ddatblygu model gwasanaeth ar gyfer gofal sydd heb ei drefnu.

- Arolwg cleifion a gomisiynwyd gan Gyngorau Iechyd Cymuned ynghylch gwasanaethau Y Tu Allan i Oriau Arferol, i gyfrannu at gomisiynu a rheoli perfformiad y gwasanaeth.
- Gwasanaeth Iechyd y Galon y Barri sydd â thîm penodol wedi'i sefydlu i ddatblygu a chytuno ar gynlluniau gofal ar gyfer cleifion unigol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys cyngor ar roi'r gorau i ysmegu, gwasanaeth bwyd a maeth, a gwasanaeth 'ymarfer corff ar bresgripsiwn'. Darperir y gwasanaeth hwn mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg.

S7.5 Cytunwn fod y BILI yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Ni ddarparwyd tystiolaeth o ddulliau monitro gan y Bwrdd na gwelliant parhaus, felly ystyriwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a chyda pharch i'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd bob amser cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol, yn **Ymwybodol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S8.2 Mae'r BILI wedi cymryd y camau canlynol o ran y Safon hon:

- Gweithredu ystod lawn o bolisiâu Adnoddau Dynol gan gynnwys Polisi Urddas yn y Gweithle a Pholisi Cydraddoldeb.
- Sefydlu fframwaith cydraddoldeb sy'n cynnwys cynlluniau a gymeradwyir gan y Bwrdd ar gyfer anabledd, hil a'r iaith Gymraeg.

- Enwebu Cyfarwyddwr Meddygol y BILI i fod yn Warcheidwad Caldicott y BILI.
- Datblygu cyfres o Bolisiâu Llywodraethu Gwybodaeth sy'n ymdrin â diogelwch gwybodaeth a chaniatâd gwybodus.
- Darparu hyfforddiant blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a llywodraethu gwybodaeth i'r holl staff ac Aelodau'r Bwrdd.
- Gweithredu proses sefydlu ar gyfer y staff sy'n amlinellu'n glir y gofynion polisi ac arfer o ran cydraddoldeb, parch a chaniatâd cleifion.
- Mae sesiynau briffio staff misol yn darparu cyfle ar draws y sefydliad i godi a thrafod materion sy'n ymwneud â'r staff.

S8.3 Mae'r BILI yn cynnal arolygon staff, sy'n ceisio barn y staff am yr amgylchedd gwaith, ac mae hefyd yn cynnal asesiadau seiliedig ar waith. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch straen, mae'r BILI wedi trefnu sesiynau tyllino pen Indiaidd a sesiynau ymlacio i'r staff. Dyfarnwyd y symbol 'tic dwbl' i'r BILI, sy'n dangos cydymffurfriad ag arfer da cenedlaethol o ran arferion cyflogaeth.

S8.4 Cedwir cyfrinachedd cleifion drwy ddefnyddio ffacs hafan ddiogel ac amgryptio e-byst pan gynhwysir gwybodaeth yn y neges sy'n golygu y gellir gwybod pwy yw'r claf. Caiff cyfathrebiaeth a dderbynnir gan y BILI ei monitro yn unol â pholisiâu cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. Mewn achos o dorri'r rheolau hyn, anfonir llythyr at yr unigolyn/sefydliad yn rhoi manylion y mater, ac yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau cydymffurfriad.

S8.5 Er bod y BILI wedi darparu atebion cynhwysfawr, nid yw wedi darparu tystiolaeth o werthuso na gwelliant parhaus. Ystyriwn felly bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y Safon hon.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet cytbwys; a*
- b. bod gofynion maeth, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod bwyd ar gael iddynt 24 awr y dydd.*

S9.1 Mae'r BILI wedi asesu ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod y BILI yn **Ymwybodol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S9.2 Mae'r BILI yn adolygu'r Cytundebau Tymor Hir sydd ganddo gyda sefydliadau darparwyr fel rhan o'i Broses Gwasanaeth a Chomisiynu Flynyddol. Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys archwiliadau i sicrhau bod sefydliadau darparwyr yn monitro hylendid bwyd ac y darperir y diet angenrheidiol i gleifion. Mae'r Nyrs Weithredol yn cyfarfod ac yn cysylltu â'r Ymddiriedolaeth GIG leol ac mae Pwyllgor Llywodraethu Clinigol y BILI yn gyfrifol am fonitro maeth. Mae'r BILI yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei derbyn gan y Cyngor Iechyd Cymuned, gan gynnwys adroddiadau ar ymweliadau safle, i fonitro i ba raddau y mae bwyd ar gael yn yr Ymddiriedolaeth GIG.

S9.3 O ran y sector cartrefi gofal ac unigolion sy'n derbyn gofal yn y gymuned, mae'r BILI yn dibynnu ar adroddiadau AGGCC a gwaith ei aseswyr nyrsys i roi sicrwydd iddo. Caiff staff perthnasol eu hyfforddi yn y Broses Asesu Unedig, ee nyrsys sy'n ymwneud ag asesu anghenion maeth cleifion a sicrhau bod gan bob claf asesiad maeth wedi'i gwblhau sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae fforymau a chyfarfodydd darparwyr yn hwyluso rhannu a datblygu dulliau ar gyfer asesu maeth.

S9.4 Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC) yn darparu gwybodaeth i'r BILI ynghylch digwyddiadau o heintiad sy'n gysylltiedig â pharatoi, cadw a thrafod bwyd yn ddiogel, ac adroddir am hysbysiadau gwella iechyd yr amgylchedd drwy'r broses rheoli risg ac fe'u cyflwynir i'r Bwrdd hefyd os oes angen.

S9.5 Er bod y BILI yn gallu dangos bod systemau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth 24 awr y dydd, ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd o ddulliau monitro neu hysbysu'r Bwrdd, ac felly ni allwn gefnogi'r lefel aeddfedrwydd a aseswyd gan y BILI ac ystyriwn ei fod yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 13

Mae gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S13.2 Mae gan y BILI fframwaith llywodraethu ymchwil wedi'i sefydlu sy'n ei gwneud yn ofynnol i bractisiau meddygon teulu drafod a chytuno ar weithgareddau ymchwil gyda'r BILI cyn dechrau arnynt. Mae hefyd yn gweithio gyda Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (WORD) a Chynghrair Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwil a Datblygiad mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AWARD) ynglŷn ag ymchwil. Mae'r BILI hefyd yn cymryd rhan mewn ymchwil dysgu gweithredol fel rhan o raglenni'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH).

S13.3 Mae Fframwaith Ymchwil y BILI yn nodi'n bennaf nifer o ofynion y mae'n rhaid i ymchwilwyr eu derbyn pan fyddant yn dymuno cynnal ymchwil, ond nid yw'n disgrifio'r trefniadau llywodraethu ymchwil sydd wedi eu sefydlu.

S13.4 Ystyriwn fod hwn yn faes lle y mae angen datblygiad a gwelliant pellach. Felly, rydym yn asesu bod y BILI yn **Ymatebol** ar bob lefel.

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn*

Ymatebol ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].

S14.2 Mae'r BILI wedi nodi:

- Bod Polisi Iechyd a Diogelwch, Strategaeth Rheoli Risg, a Pholisi Adrodd am Ddigwyddiadau a Pheryglon wedi eu sefydlu.
- Cynhelir archwiliad blynyddol gan yr ymgynghorydd iechyd a diogelwch arbenigol a benodwyd gan y BILI.
- Cedwir cofrestr risg gorfforaethol a gyflwynir i'r Bwrdd yn rheolaidd.
- Cynhelir cyfarfodydd bob chwe wythnos gyda rheolwr lleol yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) lle y trafodir materion sy'n achosi pryder ac y nodir unrhyw anghenion dysgu.
- Adroddir ar gydymffurfiaid â gofynion deddfwriaethol drwy'r adroddiad Perfformiad Llywodraethu Integredig, sy'n cael ei ystyried bob mis gan y Tîm Rheoli Gweithredol a bob dau fis gan y Bwrdd.
- Bod y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn ystyried materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r pwyllgor hwn yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod materion o'r fath yn derbyn sylw priodol mewn modd amserol.
- Darperir hyfforddiant blynyddol i'r staff ar asesu risg cyffredinol a'r broses gysylltiedig o reoli ac adrodd am risgiau.
- Bod adran ar reoli risg ar gael ar Fewnrwyd y BILI.
- Bod Gweithgor Llywodraethu Integredig y BILI (sydd ag aelodau o bob Cyfarwyddiaeth) yn rhoi sylw i reoli risg ar lefel weithredol, gan sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hysbysu'n llawn o'r gofynion ac unrhyw faterion cyffredol/gwersi a ddysgwyd.

S14.3 Ystyriwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Mae angen mwy o dystiolaeth o adolygu neu welliant parhaus sylweddol i gyflawni aeddfedrwydd Ymarferol.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn cael rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn gwynion;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S15.2 Mae'r BILI wedi dangos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ei fod wedi cymryd camau i wella ei aeddfedrwydd o ran y Safon hon, ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Penodi Hyrwyddwr ar lefel y Bwrdd ar gyfer Cydraddoldeb ac arweinydd Gweithredol ar gyfer Cwynion.
- Aelodau'r Bwrdd a'r staff yn cymryd rhan mewn sesiynau blynyddol ar wersi a ddysgwyd a thrafodaethau ar sut y mae camau a nodwyd wedi cael eu gweithredu.
- Panel Cwynion y BILI yn ystyried adroddiadau ar gwynion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth GIG leol, sydd hefyd yn adolygu tueddiadau.
- Y Bwrdd yn cymeradwyo Polisi a Gweithdrefn Gwyno sydd wedi eu cyhoeddi ar wefan y BILI ynghyd â thaflen gysylltiedig. Mae'r rhain ar gael hefyd ar ffurf copi caled ac mewn amrywiaeth o fformatau
- Bwrdd y BILI yn cymeradwyo'n flynyddol y Strategaeth Gyfathrebu a Chynlluniau Cydraddoldeb.
- Cael mynediad at wasanaethau Cynghorydd Pobl Fyddar, defnyddio'r canllaw cyfieithu a gynhyrchwyd gan y Groes Goch Brydeinig a monitro'r pecyn gofal iechyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd ar gael mewn mwy na 15 iaith.

S15.3 Mae gan y BILL nifer o wahanol ddulliau wedi'u sefydlu sy'n sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau yn yr iaith o'u dewis, ac mae'r staff yn cael eu cefnogi i alluogi hyn i ddigwydd.

S15.4 Roedd ymateb y BILL yn rhoi manylion am achlysuron pryd y darparwyd adborth i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofawyr ar welliannau a wnaed i wasanaethau o ganlyniad i bryderon a fynegwyd. Fodd bynnag, ni ddarparwyd tystiolaeth berthnasol i gefnogi'r rhain.

S15.5 O ystyried yr uchod, rydym yn asesu bod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;*
- b. i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac*
- ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.*

S16.1 Asesodd y BILL ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILL ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol].*

S16.2 Mae gan y BILL Bolisi Adrodd am Ddigwyddiadau a Pheryglon, fodd bynnag roedd i fod i gael ei adolygu ym mis Mawrth 2007. Mae'r arweinydd gweithredol ar gyfer diogelwch cleifion yn cyfarfod â'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) bob dau fis i drafod unrhyw bryderon neu dueddiadau sy'n codi.

S16.3 Darperir hyfforddiant blynyddol i staff y BILI ar adrodd am ddigwyddiadau ac asesu risg, ac mae rhaglen dreigl o hyfforddiant ar waith ar gyfer contractwyr annibynnol. Caiff gwybodaeth ei lledaenu yn lleol ac yn genedlaethol drwy 'frechwastau dysgu' i'r staff, drwy fynychu cynadleddau a digwyddiadau, a thrwy'r Fewnwyd.

S16.4 Mae gan y BILI Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes (CGB) ar gyfer lledaenu rhybuddion yr NPSA i gontractwyr annibynnol, ac mae'n sicrhau y gweithredir ar rybuddion fel rhan o'i broses adolygu contractau. Pan fo hynny'n briodol, mae ymarferwyr hefyd yn e-bostio ac yn hysbysu'r BILI y gweithredwyd ar y rhybuddion. Asesir cadernid y dulliau hyn drwy adborth yr NPSA a thrwy feincnodi nifer y digwyddiadau yr hysbysir amdanynt.

S16.5 Mae'r broses Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn cynnwys dadansoddiad o ddigwyddiadau o bwys. Cynhelir adolygiad ac fe'i cymharir ag adroddiadau'r NPSA i driongli effeithiolrwydd y broses. Lle y nodir meysydd i'w gwella, datblygir cynlluniau gweithredu gan y BILI ynghyd â'r ymarferwyr. Mae hysbysu am ddigwyddiadau drwy system yr NPSA yn broses wirfoddol i Gontractwyr Annibynnol. Hysbysir am ddigwyddiadau pan fyddant yn codi, a'r contractwyr annibynnol sy'n penderfynu pa un a ydynt yn hysbysu'r BILI ai peidio.

S16.6 Mae'r dulliau a ddefnyddir i hysbysu cleifion a defnyddwyr gwasanaeth am newidiadau a wnaed o ganlyniad i ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn lleol ac yn genedlaethol yn cynnwys arddangos hysbysiadau mewn practisiau, ar y Rhyngwyd, datganiadau i'r wasg a rhaglenni cleifion arbenigol.

S16.7 Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y rhoddir sicrwydd i'r Bwrdd bod gwybodaeth leol a chenedlaethol yn cael ei chynnwys mewn dulliau gwella ansawdd neu effeithiolrwydd clinigol. Ystyriwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond aseswn ei fod yn parhau i fod yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 17

Mae cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â chyrff eraill..

S17.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S17.2 Mae'r BILI wedi cadarnhau ei fod wedi sefydlu'r canlynol:

- Polisi a gweithdrefn y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, sy'n adlewyrchu polisi Cymru gyfan.
- Memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC) sy'n pennu'r cymorth arbenigol a ddarperir i'r BILI a phartneriaid gan y GICC.
- Hyrwyddwr Plant.
- Prosesau ar gyfer trafod adolygiadau o achosion difrifol yn rheolaidd ac Adroddiadau Chwarterol Amddiffyn Plant y GICC gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Arweinydd gweithredol ar gyfer materion amddiffyn plant (Cyfarwyddwr Meddygol)
 - Arweinydd gweithredol ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA) (Cyfarwyddwr Nyrsio)
 - Gweithdrefn POVA wedi'i chymeradwyo.

S17.3 Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau blynyddol ar faterion amddiffyn plant a darperir diweddariadau misol i'r Tîm Rheoli Gweithredol i'w sicrhau bod y staff wedi cydymffurfio â hyfforddiant amddiffyn plant gorfodol. Hefyd, darperir sesiynau hyfforddi rheolaidd i aelodau'r Bwrdd. Mae DVD lefel 1 ar hyfforddiant amddiffyn plant wedi ei anfon at bob contractwr annibynnol a chaiff y defnydd ohono ei fonitro fel rhan o'r cyfarfodydd adolygu contractau.

S17.4 Mae Ymgynghorydd Amddiffyn Plant ac Uwch Nyrs y BILI yn gweithio'n llawn amser yn y GICC ac yn sicrhau bod gwaith amlasiantaeth yn effeithiol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau hyfforddiant lle y mae ei angen a sicrhau y dilynir prosesau a pholisïau. Mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd o ran archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT). Mae adroddiadau ar ymweliadau blynyddol y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn nodi materion sy'n ymwneud â chydymffuriad contractwyr ag arweiniad amddiffyn plant.

S17.5 Ni hysbyswyd am unrhyw ddigwyddiadau amddiffyn plant, fodd bynnag cafwyd pum digwyddiad yn ymwneud ag oedolion agored i niwed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Amlygwyd y digwyddiadau gan staff y BILI, staff yr Ymddiriedolaeth ac AGGCC, ac roeddent yn ymwneud yn bennaf â safonau gofal mewn cartrefi gofal annibynnol. Sefydlwyd camau cefnogi a chynhaliwyd sesiynau myfyrio gyda staff cartrefi gofal. Roedd y materion y rhoddwyd sylw iddynt yn cynnwys prosesau asesu a chyfathrebu.

S17.6 Gan mai ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd o feincnodi neu welliant parhaus sylweddol, rydym felly yn ystyried bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b. bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a*
- ch. bod y gwaith o atal, gwahanu, trin, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S19.2 Hysbysir am unrhyw risg sy'n gysylltiedig â dyfeisiau meddygol sy'n digwydd yn lleol drwy brosesau rheoli risg y BILI. Mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd bod y sector gofal yn defnyddio dyfeisiau meddygol yn briodol drwy dderbyn adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Safonau Masnach ac AGGCC. Mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd pellach drwy'r prosesau lleoli claf ac adolygiadau a gynhelir gan aseswyr nyrsys. Mae panel caffael yn sicrhau bod unrhyw gyfarpar a brynir drwy'r BILI yn cael asesiad risg o safbwynt diogelwch.

S19.3 Os mai offer diagnostig yw'r cyfarpar a brynir neu os yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer triniaeth ymyrrol, mae hyfforddiant fel arfer yn cynnwys agwedd ar asesu'r ymarferydd sydd i ddefnyddio'r cyfarpar. Ni hysbyswyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â dyfeisiau meddygol.

S19.4 Mae gan y BILI a'r Ymddiriedolaeth Storfa Gyfarpar ar y Cyd (JES). Rhan o fanyleb gwasanaeth y JES yw bod prosesau diheintio wedi'u sefydlu. Mae cod-bar ar yr holl gyfarpar er mwyn sicrhau y gellir olrhain pob cam o neilltuo, adolygu, cynnal a chadw a diheintio. Cedwir cofnod ar gronfa ddata'r JES a gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gynhyrchu adroddiadau er mwyn hysbysu'r BILI.

S19.5 Mae gan y BILI gytundeb ffurfiol gyda'r GICC a'u hymgyngorydd deintyddol ar gyfer cynnal adolygiadau llywodraethu clinigol o arferion deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau a chyngor cenedlaethol ynglŷn â diheintio.

S19.6 Mae Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau wedi ei sefydlu ac mae Cynllun Datblygu Llywodraethu Clinigol Fferyllol y BILI yn cyfeirio at reoli meddyginiaethau.

Mae canlyniadau'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau ar gyfer 2007-08 yn ymdrin â rheoli meddyginiaethau ac ni hysbyswyd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol drwy'r gweithdrefnau hysbysu ffurfiol. Mae'r BILI hefyd wedi cynhyrchu cylchlythyrau penodol ar gyfer fferylliaeth.

S19.7 Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn rheoli gwastraff o fewn gofal sylfaenol ar ran y BILI ac mae'r gofynion ar gyfer hyn wedi'u cynnwys yn y prif Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Rheolir gwaith monitro ac archwilio gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes hefyd. Adolygir y prosesau lechyd a Diogelwch a sefydlwyd gan ddarparwyr gan y broses Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau ac adolygiadau o gontractau. Cyflwynir adroddiadau ar ganlyniadau'r adolygiadau hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a'r Bwrdd.

S19.8 Cytunwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y Safon hon.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn gweithio i wella'r gofal ar gyfer cleifion a gwella boddhad y staff yn barhaus, drwy ddarparu arferion gorau o ran rheoli adnoddau dynol.

S20.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol, yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymwybodol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S20.2 Rydym yn parhau i fod yn fodlon bod gan y BILI brosesau digonol wedi'u sefydlu i fonitro a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y staff wedi eu hymrymuso i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. O ran hyn, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo:

- Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Sefydliadol 2007.
- Cynllun Corfforaethol 2007-08.
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella 2007–09.

S20.3 Mae'r BILI yn pennu amcanion corfforaethol bob blwyddyn sydd wedyn yn cael eu rhaedru drwy'r sefydliad er mwyn i amcanion y staff gael eu cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion y Bwrdd. Mae gan bob aelod o staff Gynllun Datblygu Perfformiad (CDP) sy'n annog datblygiad staff ac sy'n gysylltiedig â gwella gwasanaethau.

S20.4 Mae sesiynau briffio staff yn caniatáu i'r staff roi adborth i gydweithwyr ar ddatblygiadau a rhannu arfer gorau. Mae'r BILI hefyd yn annog y staff i gymryd rhan mewn rhaglenni'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH).

S20.5 Caiff swyddogaeth Adnoddau Dynol (AD) y BILI ei chyflawni gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes (fel y pennwyd mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ffurfiol), ac mae'r BILI yn monitro perfformiad yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt. Mae Bwrdd y BILI yn derbyn yr adroddiadau hyn ac yn craffu arnynt. Asesir cydymffurfiad ag arfer gorau drwy gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol yn y CLG hwn. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut y caiff y CLG ei fonitro. Cynhelir cyfweiliadau ymadael a defnyddir y wybodaeth hon i gyfrannu at brosesau recriwtio ar gyfer y dyfodol.

S20.6 Mae'r staff yn cyfrannu at ddatblygu'r cynllun gwasanaeth a chomisiynu blynyddol, ac mae'r cynllun gwaith corfforaethol blynyddol yn amlinellu gwaith i ddatblygu gwasanaethau. Mae nifer o fentrau wedi'u sefydlu sy'n dangos y gwnaed gwelliannau i wasanaethau, gan gynnwys darparu Gwasanaeth Lymoffodema, cyflwyno tîm pwysau'r gaeaf a Gwasanaeth Ychwanegol Lleol Dermatoleg, a chomisiynu gwasanaeth gynaeoleg ar un safle.

S20.7 Rydym yn asesu'r BILI fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn cynnal yr holl gamau archwilio gofynnol ar gyfer cyflogaeth ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwysedig, boed yn gyflogedig neu ar gontract, wedi eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*

- b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gydymffurfio â'u codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
c. yn rhoi sylw, pan fo hynny'n briodol, i dangynrychioli o ran grwpiau ethnig.

S21.1 Asesodd y BILL ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILL ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S21.2 Caiff archwiliadau cofrestriad proffesiynol y SCT eu rheoli gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Mae Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol wedi'u sefydlu, ond dylid bod wedi adolygu'r polisi hwn ym mis Ebrill 2006. Cynhelir gwaith monitro'r gweithlu gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes a darperir tystiolaeth ohono yn Adroddiad Llywodraethu Integredig 2007. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau bob dau fis ar broffil demograffig gweithlu'r BILL.

S21.3 Cadarnhawyd bod Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd, Hiliol a'r Iaith Gymraeg wedi eu sefydlu, er mai Gorffennaf 2007 oedd dyddiad adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

S21.4 Caiff materion sy'n ymwneud â chofrestriad a chymwysterau proffesiynol contractwyr eu monitro a'u cynnal gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â'r systemau sydd wedi'u sefydlu i nodi ac ymdrin ag achosion o dorri rheolau ymddygiad proffesiynol, mae'r BILL dim ond wedi cyfeirio at ei Weithdrefn Ddisgyblu a Gweithdrefnau Perfformiad Gwael o ran Proffesiynau Contractwyr.

S21.5 Cytunwn fod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol a hefyd ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg tystiolaeth a'r ymatebion cryno a ddarparwyd i'r cwestiynau ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, rydym unwaith eto wedi asesu bod y BILL yn **Ymatebol** ar y lefel hon.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.

S22.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S22.2 Cadarnhaodd y BILI fod prosesau blynyddol wedi'u sefydlu ar gyfer pennu amcanion, gwerthuso a rhaglenni datblygiad personol, a chynhelir adolygiadau rhwng aelodau staff a'u rheolwr llinell.

S22.3 Mae gan y BILI Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Sefydliadol gyda chyllideb benodol ar gyfer hyfforddi staff unigol wedi ei neilltuo ar gyfer pob aelod o staff. Sicrheir bod y staff yn ymwybodol o raglenni hyfforddi perthnasol mewn ffyrdd amrywiol.

S22.4 Ni ddarparwyd tystiolaeth o fonitro rhaglenni hyfforddi i benderfynu ar eu heffeithiolrwydd a'u hansawdd, na thystiolaeth fod prosesau monitro wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol. Dangosodd Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Integredig y BILI ar gyfer mis Hydref 2007 fod presenoldeb mewn pum sesiwn hyfforddi yn amrywio rhwng 27 a 57%. Yn ystod mis Mawrth 2008, dangoswyd bod lefel presenoldeb o 58% mewn sesiynau hyfforddi gorfodol.

S22.5 Nid oedd tystiolaeth gystal i ddangos sut y rhoddir sicrwydd i'r Bwrdd bod systemau wedi'u sefydlu i gefnogi datblygiad proffesiynol a galwedigaethol parhaus. Felly, ystyriwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S22.6 Ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd i ddangos pa adborth a gafwyd ar raglenni datblygiad proffesiynol, galwedigaethol a phersonol parhaus, a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud o ganlyniad iddynt. Hefyd, ychydig o wybodaeth a oedd ar gael ynglŷn â faint a fanteisiodd ar y cyfleoedd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, felly ystyriwn fod y BILI yn parhau i fod ag aeddfedrwydd **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ar gyfer y Safon hon.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y driniaeth ohonynt neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu sefyllfa; a*
- b. rhaglenni datblygiad sefydliadol a rhaglenni datblygiad personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer yr asesiad hwn. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S23.2 Mae gan y BILI brosesau da wedi eu sefydlu i gefnogi'r staff i godi pryderon am unrhyw agwedd ar ddarparu gwasanaethau, triniaeth neu reoli. Mae'r Fforwm Staff a gynhelir bob tri mis yn rhoi cyfle i'r staff godi materion o ran y drefn ddyddiol a chyffredinol sy'n achosi pryder am weithrediad y BILI. Mae gan bob Cyfarwyddiaeth gynrychiolydd ar y Grŵp hwn.

S23.3 Darparwyd nifer o enghreifftiau o sut y rhoddwyd sylw i faterion a godwyd yn y fforwm, gan gynnwys camau a gymerwyd mewn ymateb i bryderon a godwyd ynglŷn â'r Agenda ar gyfer Newid. Defnyddiwyd Polisi Achwyn y BILI i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â pherthynas staff â'i gilydd mewn amgylchedd gwarchoddedig a rheoledig.

S23.4 Mae Rhaglen Hyfforddi'r BILI yn cynnwys diweddariadau ar yr holl wasanaethau, ynghyd â'r angen i nodi a hysbysu am ganmoliaeth a sylwadau cadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau, triniaeth neu reoli gofal. Mae'r prosesau

sydd wedi eu sefydlu i sicrhau a chydabod cyfraniadau'r staff wedi eu tanategu gan brosesau a gweithdrefnau cymeradwyo a weithredir gan y BILI, a allai arwain at lythyr llongyfarch gan Gadeirydd y Bwrdd, y Prif Weithredwr neu'r Bwrdd.

S23.5 Ystyriwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sy'n briodol o sefydledig ac sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ym mhob rhan o'r gymuned; a*
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr].*

S24.2 Cadarnhaodd y BILI fod nifer o drefniadau partneriaeth wedi eu sefydlu, gan gynnwys:

- Ffurio Partneriaeth Strategaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles.
- Datblygu'r ddogfen 'Byw'n Hirach Byw'n Well' 2008–2011.
- Sefydlu Cydgysylltydd Strategaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles ar y Cyd gyda'r Awdurdod Lleol.

S24.3 Mae enghreifftiau o weithio ar y cyd a mentrau a ddatblygwyd gan y BILI a'i bartneriaid yn cynnwys:

- Cynghrair iechyd a gwaith hybu iechyd.
- Menter trais domestig.
- Menter ysgolion iach.
- Timau Cychwyn Cadarn.

- Timau ar y cyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Sefydlu gwasanaeth ailalluogi yng Ngorllewin y Fro.

S24.4 Roedd y BILI hefyd wedi darparu enghreifftiau i ddangos sut y mae profiad y defnyddiwr wedi gwella drwy weithredu newidiadau i brosesau gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r tu allan i faes gofal iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sefydlu Fforwm Pobl Hŷn.
- Sioe 'Heini am Oes'.
- Gwell llwybrau i gleifion o ganlyniad i'r gwasanaeth ailalluogi.
- Gwasanaeth gofal dydd iechyd meddwl yn y sector gwirfoddol.

S24.5 Rydym yn asesu'r BILI fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr fel eu haeddfedrwydd ar gyfer asesiad 2007-08. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol and Phrofiad y Defnyddiwr].*

S25.2 Mae'r BILI wedi dangos y cymerwyd camau i ddarparu cyngor a hyfforddiant ar ofynion Caldicott a rheoli gwybodaeth. Cymeradwyodd y Bwrdd gyfres o Bolisiâu Technoleg a Rheoli Gwybodaeth (IM&T) ym mis Ebrill 2005, a gafodd eu diwygio a'u cymeradwyo gan y Tîm Rheoli Gweithredol ym mis Mai 2007 mewn ymateb i'r amgylchedd IM&T a oedd yn datblygu.

S25.3 Mae'n ymddangos mai'r unig ddulliau a sefydlwyd ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod systemau rheoli cofnodion yn gweithio'n dda yw asesiad Cronfa Risg Cymru a gynhaliwyd ddiwethaf yn 2006-07. Hefyd, ni ddarparwyd tystiolaeth o

gynnal archwiliadau systematig o gydymffurfiad. Felly, ystyriwn fod y BILI yn parhau i fod yn Ddatblygol ar y lefel Gorfforaethol.

S25.4 Defnyddir y data a gesglir gan y Ganolfan Rheoli Atgyfeiriadau gan y tîm comisiynu i ddeall ac ymateb i batrymau galw lleol. Mae hyn ei dro yn cyfrannu at ddatblygu llwybrau gofal a throsglwyddo gwasanaethau ar draws y sectorau gofal er mwyn bodloni'r angen lleol yn y ffordd orau.

S25.5 Mae hyfforddiant sefydlu staff yn cynnwys defnyddio caledwedd IM&T a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig perthnasol. Yn ystod 2007-08, darparodd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes sesiynau hyfforddi ar ofynion Caldicott a Rheoli Gwybodaeth. Mae cylch gorchwyl y Gweithgor Llywodraethu Integredig yn nodi bod datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu'r fframwaith IM&T yn un o gyfrifoldebau'r grŵp.

S25.6 Mae tîm comisiynu'r BILI yn dilysu'r data a ddarperir drwy'r dull 'hypercube' i sicrhau cysondeb a chywirdeb. Defnyddir gwybodaeth Asesu Unedig i wirio gwybodaeth gan feddygon teulu, er bod y BILI yn nodi bod anawsterau gweithredol o ran defnyddio Asesu Unedig yn gyson. Defnyddir gwybodaeth gan gleifion i ddiweddarau a chynnal cronfeydd data gwybodaeth, a gedwir mewn lleoliadau gwahanol ac a archwilir i sicrhau cysondeb. Caiff data ei ddadansoddi a'i driongli gyda ffynonellau gwybodaeth eraill, e.e. nifer yr atgyfeiriadau dewisol gan feddygon teulu, nifer y derbyniadau heb eu trefnu i'r lleoliad ysbyty aciwt, a nifer yr ymyriadau a ysgogir gan y Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Arferol. Mae'r BILI, mewn partneriaeth â'i feddygon teulu, wedi datblygu Porth Clinigol i'w galluogi i gael mynediad at wybodaeth yn electronig.

S25.7 Ystyriwn fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr gan mai tystiolaeth gyfyngedig a ddarparwyd o ddulliau monitro a gwelliant parhaus.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

a. bod y sefydliad, o'r funud y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei

ddileu'n derfynol, yn cynnal y wybodaeth mewn modd sy'n ateb diben gwreiddiol ei chasglu, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan nad oes ei hangen arnynt mwyach; a
b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

S26.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, asesodd y BILL ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILL ar gyfer y Safon hon yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr].*

S26.2 Roedd y BILL yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i roi sylw i'r Safon hon, ac roedd rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Penodi Swyddog Diogelu Data.
- Gweithredu Gweithdrefnau Cyfrinachedd.
- Datblygu a gweithredu Strategaeth a Pholisi Rheoli Cofnodion sy'n cynnwys gweithdrefnau ffeilio ac archifo.
- Gweithredu polisiâu IM&T, gan gynnwys polisiâu diogelwch data, cyfrinachedd a hafan ddiogel.
- Cwblhau hunanasesiad Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru (WASPI).
- Cynnwys Hyfforddiant Rheoli Cofnodion fel rhan o Hyfforddiant Sefydlu Corfforaethol.
- Mabwysiadu Polisi ar gyfer Rheoli a Datblygu Dogfennau Polisi Corfforaethol.

S26.3 Cefnogir y BILL wrth sicrhau trefniadau rheoli cofnodion effeithiol gan y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth rhanbarthol ac mae'n aelod o'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth rhanbarthol. Mae gan Ysgrifennydd y Bwrdd gyfrifoldeb gweithredol am reoli cofnodion, a Chyfarwyddwr Meddygol y BILL yw ei Warcheidwad Caldicott. Y Pennaeth Cynllunio Corfforaethol yw'r arweinydd ar gyfer llywodraethu gwybodaeth ac ef yw'r Swyddog Diogelu Data enwebedig.

S26.4 Sicrheir bod y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd rheoli cofnodion yn dda drwy nifer o brosesau gan gynnwys proses sefydlu gynhwysfawr, sesiynau hyfforddi wedi eu teilwra ar gyfer swyddogaethau penodol, a chyhoeddi'r fframwaith llywodraethu integredig llawn ar y fewnrwyd. Cynhwysir Dangosyddion Perfformiad allweddol ar gyfer rheoli cofnodion yn yr adroddiadau llywodraethu integredig misol a gyflwynir i'r Bwrdd. Disgrifiodd y BILI dri newid a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i archwilio cofnodion:

- Datblygu gwell system rheoli gwybodaeth.
- Diwygio'n llwyr system rheoli cofnodion y BILI mewn ymateb i archwiliad corfforaethol o effeithiolrwydd.
- Archwiliad dirybudd ar hap.

S26.5 Mae swydd Ysgrifennydd y Bwrdd wedi ei datblygu ac mae'r disgrifiad swydd ar ei chyfer yn nodi mai'r unigolyn hwn sy'n benodol gyfrifol am reoli cofnodion yn weithredol. Yn dilyn archwiliad corfforaethol ac archwiliad dirybudd ar hap i nodi lleoliad ffeiliau, caiff pob cofnod electronig ei ffeilio yn unol â system ffeilio ganolog erbyn hyn.

S26.6 Mae'r atebion a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI yn cefnogi aeddfedrwydd **Datblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;*
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, aseswyd gennym fod aeddfedrwydd y BILI ar gyfer y Safon hon yn*

Ymatebol ar y lefel Gorfforaethol ac yn Ddatblygol ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr]

S28.2 Mae'r BILI wedi darparu'r canlynol fel tystiolaeth i ddangos bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn cael eu cynnwys ym mhob rhan o'r sefydliad:

- Cynllun Gwasanaeth a Chomisiynu Blynyddol 2007-08.
- Fframwaith Gweithredu Blynyddol 2008-09.
- Cynllun Datblygu Llywodraethu Clinigol 2006/07.
- Rhestr Wirio Llywodraethu Clinigol.
- Strategaeth Llywodraethu Clinigol.

S28.3 Mae'r Bwrdd yn monitro cydymffurfriad a chynnydd yn erbyn y cynlluniau a'r fframweithiau hyn drwy ei strategaethau comisiynu, ac adolygiadau blynyddol o'r trefniadau llywodraethu clinigol a nodir yn benodol mewn contractau gyda darparwyr. Mae proses adolygu ansawdd wedi ei datblygu a'i gweithredu ar gyfer pob contractwr fferyllol a deintyddol, ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu proses gyffelyb ar gyfer darparwyr optometreg. Sefydlwyd panel clinigol i adolygu canlyniadau'r adolygiadau o gontractau ac ymweliadau'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, a rhoddir adborth i bractisiau ar ffurf cynllun gweithredu. Caiff y broses ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a darperir adroddiadau i'r Bwrdd drwy gofnodion y pwyllgor.

S28.4 Mae ymateb y BILI yn nodi hefyd bod y staff yn ganolog i ddatblygu a monitro systemau llywodraethu clinigol, a'u bod yn cyfrannu at waith rheoli strategol a gweithredol y polisïau a'r gweithdrefnau hyn o fewn swyddogaeth gomisiynu a chontractio'r BILI. Mae'n sicrhau bod y staff yn ymwneud â llywodraethu clinigol drwy gymryd rhan yn y pwyllgor llywodraethu clinigol a'r pwyllgorau sy'n ei gefnogi; adolygu arfer gorau; prosesau meincnodi; a mynychu digwyddiadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r BILI wedi datblygu a chyhoeddi llawlyfr llywodraethu clinigol ynghyd â CD ar gyfer y staff.

S28.5 Fodd bynnag, gan na ddarparwyd tystiolaeth o archwiliad systematig o gydymffurfriad a chynnydd yn erbyn y strategaethau, y polisïau a'r gweithdrefnau, rydym felly yn ystyried bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol. Ar sail

gwybodaeth a ddarparwyd mewn man arall yn hunanasesiad y BILL, gallwn gadarnhau aeddfedrwydd **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

5. Pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol BILI Bro Morgannwg?

5.1 O'r wybodaeth a gasglwyd o hunanasesiad y BILI, yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd a chyfarfodydd gyda Swyddfa Ranbarthol De-ddwyrain Cymru ac archwilwyr mewnol BILI Bro Morgannwg, mae'n amlwg bod llawer o waith wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd a'u gwneud yn rhan o brosesau llywodraethu'r sefydliad.

5.2 Rydym wedi cyfeirio at adroddiad archwilwyr mewnol y BILI wrth asesu pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi'u hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol BILI Bro Morgannwg. Yn unol â'r dull y cytunwyd arno gydag archwilwyr mewnol ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol ar draws Cymru, maent wedi:

- Adolygu hunanasesiad y BILI a'i gyfraniad at y rhaglen ar-lein ar gyfer y safonau hynny y cyfeiriwyd atynt yn benodol yn Natganiad o Reolaeth Fewnol y BILI, sef:
 - **Safon 14:** *Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.*
 - **Safon 16:** *Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:*
 - a. *i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;*
 - b. *i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
 - c. *i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac*
 - ch. *i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.*

- **Safon 27:** *Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:*
 - a. *yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a clinigol cadarn;*
 - b. *yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
 - c. *yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
 - ch. *yn cynnwys asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac*
 - d. *wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau ieched a rhwydweithiau clinigol.*

- **Safon 28:** *Mae cyrff gofal ieched:*
 - a. *yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;*
 - b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
 - c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

Roedd yr adolygiad o bob safon yn cynnwys adolygiad o'r 'stori' a'r dystiolaeth sy'n ei chefnogi, ac asesiad o briodoldeb hunanasesiad y BILI o'i aeddfedrwydd.

- Cynhaliwyd asesiad o'r broses a ddefnyddiwyd gan BILI Bro Morgannwg wrth baratoi a chwblhau'r hunanasesiad.
- Adolygwyd Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd BILI Bro Morgannwg ar gyfer 2007-08 a'r prosesau sydd wedi'u sefydlu i fonitro ac adrodd ar gynnydd, gan roi sylw penodol i asesu pa un a wnaed gwelliannau o ran y meysydd a'r safonau hynny a oedd yn 'ymwybodol' neu'n 'ymatebol' yn ôl gwerthusiad AGIC y llynedd.
- Aseswyd pa un a yw Bwrdd y BILI wedi bod yn ymgysylltu'n briodol â'r broses hunanasesu ac o ran ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd.

5.3 Rydym felly yn gallu cadarnhau:

- Bod meysydd lle nad oedd yr Archwilwyr Mewnol yn ystyried bod y dystiolaeth yn ddigonol i gefnogi'r sefyllfa well o ran safonau 14, 16, 27 a 28.

Fodd bynnag, cryfhaodd y BILI ei atebion a'i dystiolaeth yn y meysydd hyn yn dilyn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol cyn i'r hunanasesiad gael ei gyflwyno.

- Bod angen cryfhau'r broses hunanasesu. Mae angen i'r system gael ei hymsefydlu a'i hintegreiddio'n well yn y Cyfarwyddiaethau fel proses yn ystod y flwyddyn. Yn arbennig, dylid casglu tystiolaeth drwy gydol y flwyddyn a diwygio'r wybodaeth wrth i newidiadau ddigwydd yn y sefydliad. Byddai hyn yn golygu y gallai'r broses derfynol fod yn fwy llyfn a byddai'n caniatáu mwy o amser ar gyfer adolygu.
- Y dylid adolygu'r dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn y pecyn cymorth er mwyn sicrhau y dilëir hen dystiolaeth.
- Y dylai'r BILI, wrth ddarparu sgôr hunanasesu, ystyried i ba raddau y mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r sgôr drwy gydol y flwyddyn. Yn arbennig, gall Polisiâu/Strategaethau ac ati fod yn dystiolaeth ddilys dim ond os ydynt wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn.

5.4 O ystyried yr uchod, rydym yn cytuno â safbwyntiau archwilwyr mewnol Bro Morgannwg bod angen gwelliannau i sicrhau bod y Safonau Gofal Iechyd yn cael eu hymsefydlu a'u hintegreiddio ym mhroses lywodraethu'r BILI.

6. Y Camau Nesaf

6.1 Mae'n ofynnol i BILL Bro Morgannwg gyflwyno Cynllun Gwella Safonau Gofal lechyd a gymeradwywyd gan y Bwrdd i Swyddfa Ranbarthol De-ddwyrain Cymru Adran lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2008. Bydd y Swyddfa Ranbarthol yn cytuno ar y cynllun hwn ac yn monitro'r broses o'i weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan y BILL.

6.2 Bydd AGIC yn cyhoeddi adroddiad Cymru gyfan ym mis Hydref 2008, a fydd yn cynnwys y canfyddiadau o adroddiadau unigol i greu trosolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan broses asesu'r Safonau Gofal lechyd eleni.

Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt ond nid yw'n gallu dangos penderfyniadau/camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, ond ni cheir tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arfer arloesol a rennir ar draws y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, sy'n golygu y gellir gwreiddu cynaliadwyedd hirdymor.
Gweithredol	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt a nodwyd ystod o ddewisiadau i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol, a cheir thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arfer arloesol, a rennir ar draws y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol, ac mae'r gwasanaeth yn gallu dangos tystiolaeth eglur o arfer da, y gellir ei rannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon ar gyfer y Safonau hynny a Ddilyswyd yn Annibynnol gan AGIC

Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

Safon 3

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 4

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 5

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 6

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 7

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 8

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 9

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 13

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 14

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 15

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 16

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 17

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 19

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 20

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 21

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 22

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

Safon 23

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 24

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 25

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 26

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	p	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 28

	Hunanasesiad	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Atodiad 3

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny nad ydynt yn agored i Ddilysiad Annibynnol gan AGIC

Safon 1

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 2

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 10

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 11

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 12

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 18

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 27

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 29

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 30

	Asesiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanasesiad 2006-07
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 32

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad i fyny/ i lawr)	Hunanaseiad 2006-07
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Y Safonau Gofal Iechyd i Gymru

Maes 1: Profiad y Claf

Safon 1: Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Safon 2: Mae'r gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.

Safon 3: Mae cleifion sydd ag anghenion iechyd brys yn cael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Safon 4: Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:

- a. hybu lles y cleifion a'r staff;
- b. parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;
- c. ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;
- ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

Safon 5: Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd:

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.

Safon 6: Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd;
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac

- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar ddewisiadau yn ymwneud â'u gofal.

Safon 7: Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain.

Safon 8: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a chyda pharch i'r gwahaniaethau rhyngddynt;
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd bob amser cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.

Safon 9: Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet cytbwys; a
- b. bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod bwyd ar gael iddynt 24 awr y dydd.

Safon 10: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n derbyn gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu amlwg ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

Maes 2: Canlyniadau Clinigol

Safon 11: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff triniaethau a gofal clinigol eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol priodol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

Safon 12: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);

- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;
- c. yn ystyried anghenion a dewisiadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac
- ch. yn integredig er mwyn darparu gwasanaeth di-dor gan yr holl gyrff y mae angen iddynt fod yn rhan, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.

Safon 13: Mae gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwysu'n gyson.

Maes 3: Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14: Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

Safon 15: Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn cael rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn gwynion;
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Safon 16: Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;
- b. i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;
- c. i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac
- ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.

Safon 17: Mae cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â chyrrff eraill.

Safon 18: Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi, a gweithredu pan fo angen hynny, ymateb trefnedig i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau arferol.

Safon 19: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;
- b. bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a
- ch. bod y gwaith o atal, gwahanu, trin, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

Safon 20: Mae cyrff gofal iechyd yn gweithio i wella'r gofal ar gyfer cleifion a gwella boddhad y staff yn barhaus, drwy ddarparu arferion gorau o ran rheoli adnoddau dynol.

Safon 21: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn cynnal yr holl gamau archwilio gofynnol ar gyfer cyflogaeth ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwysedig, boed yn gyflogedig neu ar gontract, wedi eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;
- b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gydymffurfio â'u codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac
- c. yn rhoi sylw, pan fo hynny'n briodol, i dangynrychioli o ran grwpiau ethnig.

Safon 22: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.

Safon 23: Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y driniaeth ohonynt neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu sefyllfa; a
- b. rhaglenni datblygiad sefydliadol a rhaglenni datblygiad personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.

Safon 24: Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sy'n briodol o sefydledig ac sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ym mhob rhan o'r gymuned; a
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu

ffyrdd gwell o weithio.

Safon 25: Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

Safon 26: Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

- a. bod y sefydliad, o'r funud y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu'n derfynol, yn cynnal y wybodaeth mewn modd sy'n ateb diben gwreiddiol ei chasglu, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan nad oes ei hangen arnynt mwyach; a
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Safon 27: Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;
- b. yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- c. yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- ch. yn cynnal asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac
- d. wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.

Safon 28: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr;

Maes 4: Iechyd y Cyhoedd

Safon 29: Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu mewn modd dangosol, ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy:

- a. gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a
- b. sicrhau bod eu polisiâu a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chynghor cadarn ar iechyd y cyhoedd

Safon 30: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd, sy'n cynnwys staff, sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau

Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac

- b. yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.

Safon 31: Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod cynlluniau ar waith i baratoi adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd pe byddai digwyddiad sylweddol o glefyd heintus neu argyfwng iechyd arall yn digwydd;
- b. yn nodi ac yn gweithredu ynglŷn â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd a materion anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;
- c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;
- ch. yn annog a chefnogi unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Safon 32: Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

Rhestr Termau Allweddol

Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) - Adran mewn ysbytai sy'n darparu triniaeth frys a thriniaeth gychwynnol ar gyfer anafiadau a salwch.

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n darparu cyngor i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

atebolrwydd - cyfrifoldeb, yn yr ystyr o orfod bod yn atebol am rywbeth.

cynllun gweithredu - cynllun gweithredu ac amserlen y cytunwyd arnynt sy'n gwneud gwelliannau i wasanaethau, yn dilyn adolygiad o lywodraethu clinigol.

eiriolaeth - y broses o gefnogi a galluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau a'u pryderon; cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau; amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau; ac, ymchwilio i ddewisiadau. Mae eiriolwyr yn cefnogi ac yn dadlau achosion defnyddwyr gwasanaeth ac yn eu cynorthwyo i gyflwyno eu safbwyntiau.

gwerthusiad - asesiad o i ba raddau y mae perfformiad unigolyn yn bodloni'r safonau neu'r amcanion sy'n ofynnol yn ei swydd.

archwiliad - adolygiad sy'n canfod pa mor dda mae gwasanaeth yn diwallu safonau neu feini prawf y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw.

meincnodi - proses o gymharu â grwpiau tebyg i weld sut mae arferion lleol yn cyd-fynd ag arferion tebyg mewn lleoedd eraill.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mhob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd y broses o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – cyfres o gamau trin a gofal a ddiffiniwyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion penodol pob claf.

cynllun gofal - cynllun sy'n nodi'r gwasanaethau yr ystyrir y mae eu hangen ar unigolyn a sut y bydd yr angen hwn yn cael ei ddiwallu.

gofalwyr - pobl sy'n gofalu am eu partneriaid, perthnasau a ffrindiau'n ddi-dâl, yn aml yn hytrach na nyrs.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – mae'n darparu gwasanaeth rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol.

clinigol – mae'n golygu unrhyw driniaeth a ddarperir gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys meddygon, nyrsys, therapyddion ac ati. Mae anghlinigol yn golygu rheoli, gweinyddu, arlwyo, gwaith porthor ac ati.

archwiliad clinigol – gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso a mesur pa mor dda maent yn bodloni safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaethau.

effeithiolrwydd clinigol - i unigolion, mae hyn yn golygu i ba raddau mae triniaeth yn sicrhau'r gwelliant mewn iechyd y mae wedi'i chynllunio i'w sicrhau ar gyfer claf. I sefydliadau cyfan, mae'n golygu i ba raddau y mae'r sefydliad yn sicrhau y defnyddir 'arferion gorau' pryd bynnag y bo hynny'n bosibl a bod canlyniadau clinigol yn cyfateb i feincnodau priodol.

llywodraethu clinigol - fframwaith sy'n gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am wella'n barhaus ansawdd eu gwasanaethau a diogelu safonau uchel o ofal, trwy greu amgylchedd lle y bydd rhagoriaeth mewn gofal clinigol yn ffynnu.

adolygiad o lywodraethu clinigol - adolygiad o'r polisiau, y systemau a'r prosesau a ddefnyddir gan sefydliad i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel i gleifion. Mae'r adolygiad yn ystyried y ffordd y mae'r polisiau hyn yn gweithio'n ymarferol.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

arfer clinigol - dulliau o ddarparu gofal iechyd.

clinigwr / staff clinigol - gweithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n llawn – meddyg, nyrs, therapydd, technegydd ac ati.

comisiynu - y broses o ganfod anghenion iechyd lleol, datblygu cynlluniau gyda phartneriaid strategol i ddiwallu'r anghenion hynny, nodi gwasanaethau iechyd penodol a gwneud trefniadau gyda darparwyr gwasanaethau iechyd i sicrhau y darperir gwasanaethau.

gofal cymunedol - gwasanaethau a ddarperir i gleifion yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd a gwasanaethau gan weithwyr proffesiynol eraill megis therapyddion galwedigaethol. Yn aml iawn, darperir gwasanaethau gofal cymunedol mewn partneriaeth ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y mae llywodraeth leol yn gyfrifol amdanynt.

Cynghorau Iechyd Cymuned - Sefydlwyd Cynghorau Iechyd Cymuned ym 1974 i gryfhau cyfranogiad y gymuned mewn diffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Maent yn annibynnol ac yn gweithio i gynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau iechyd lleol. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd yn darparu cymorth cyfrinachol

yn rhad ac am ddim i bobl sydd â phroblem neu gŵyn ynglŷn â gwasanaethau'r GIG.

datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) - proses ddysgu barhaus sy'n ategu addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig ffurfiol.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) - asiantaeth weithredol y Llywodraeth a sefydlwyd i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth mewn cofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa'n cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

diogelu data – gofyniad i gyrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Cwmpesir cyfrifoldebau o'r fath dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, sydd â'r nod o ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Cynllun Oes - cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005 gan nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n sefydlu strategaeth 10 mlynedd i wireddu hynny.

maes – grŵp o weithgareddau, pryderon neu swyddogaethau. Mae gan Safonau Gofal Iechyd Cymru bedwar maes: profiad y claf; canlyniadau clinigol; llywodraethu gofal iechyd; ac iechyd y cyhoedd. Defnyddir y meysydd hyn i grwpio'r 32 o safonau gofal iechyd yn themâu.

llywodraethu - mae'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n diffinio disgwyliadau, yn rhoi pŵer neu'n gwirio perfformiad. Mae'n broses ar wahân neu'n rhan benodol o brosesau rheoli neu arwain.

Comisiwn Iechyd Cymru (CIC) - asiantaeth weithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau iechyd arbenigol i bobl Cymru.

strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles - mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol (y Bartneriaeth Strategol) i ddatblygu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a fydd yn nodi ac yn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y gymuned leol.

safonau gofal iechyd – fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd da ym mhob lleoliad iechyd.

digwyddiadau - rhywbeth sydd wedi digwydd sy'n anghyffredin ac a allai fod yn niweidiol i gleifion.

Awdurdod Lleol – corff llywodraeth leol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl yn ei gymuned. Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

matrics aeddfedrwydd – ffordd o ddiffinio lefelau aeddfedrwydd a gallu sefydliadol ym mhob agwedd ar y Safonau Gofal Iechyd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sydd yng Nghymru fel rheol yn darparu'r holl wasanaethau gofal iechyd aciwt a chymunedol mewn ardal benodol. Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw'r eithriadau. Mae Ymddiriedolaethau'n cyflogi ystod lawn o weithiwr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion ac ati.

Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd - ei phwrpas yw cynorthwyo sefydliadau'r GIG yng Nghymru ar bob lefel i ddatblygu'r gallu a'r medrusrwydd i ddarparu'r agenda newid, cynorthwyo i sefydlu arweinyddiaeth, arloesed ac adnewyddiad effeithiol ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad gyfan i hysbysu am gamgymeriadau sy'n effeithio ar ddiogelwch claf ac, yn bwysicach, i ddysgu o'r camgymeriadau hyn.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC) – mae'n darparu'r adnoddau, y wybodaeth a'r cyngor i alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn Iechyd Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni eu swyddogaethau iechyd cyhoeddus statudol. Mae GICC yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus gan geisio: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldeb ym maes iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau sy'n bodoli eisoes yn ogystal â rhai newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg; a chyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

cynnwys y cleifion a'r cyhoedd – strategaethau a pholisïau a luniwyd i sicrhau yr ystyrir sylwadau a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd.

rheoli perfformiad - y defnydd o broses adolygu (y canlyniadau a ddarparwyd o'u cymharu ag amcanion a bennwyd fel rheol) er mwyn asesu pa mor dda mae unigolyn, tîm neu wasanaeth yn gweithio.

gofal sylfaenol - gwasanaethau iechyd teuluol a ddarperir gan feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optegwyr, ac eraill megis nyrsys cymuned, ffisiotherapyddion a rhai gweithwyr cymdeithasol.

amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (POVA) - cynllun Llywodraethol sy'n sicrhau na all y rhai sydd wedi niweidio neu gam-drin oedolion sy'n agored i niwed dan eu gofal weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed eto.

fframwaith canlyniadau ansawdd – mae'n gwobrwyo timau gofal sylfaenol am ddarparu gofal o ansawdd da i'w cleifion. Mae gan y fframwaith bedwar "maes": clinigol, sefydliadol, profiad y claf a gwasanaethau ychwanegol.

gofal eilaidd - gofal arbenigol, a ddarperir yn yr ysbyty fel rheol, ar ôl atgyfeiriad gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

hunanasesiad - yng nghyd-destun safonau gofal iechyd, mae'n cyfeirio at adolygiad cynhwysfawr, systematig a rheolaidd o weithgareddau a chanlyniadau sefydliad wedi'u cymharu â'r safonau gofal iechyd. Mae'r broses hunanasesu'n galluogi'r sefydliad i nodi'n eglur ei gryfderau a'i wendidau a meysydd lle gellid gwneud gwelliannau ac yn cloi gyda champau gwella arfaethedig sydd wedyn yn cael eu monitro o ran cynnydd.

gwasanaethau cymdeithasol – yr asiantaeth sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth personol a ariennir gan awdurdodau lleol.

datganiadau o reolaeth fewnol - datganiad o drefniadau cyffredinol corff y GIG ar gyfer sicrhau bod y prif beryglon mewn sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

bwrdd yr ymddiriedolaeth - grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y statud am wneud penderfyniadau pwysig am strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel rheol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pump o aelodau lleyg (a elwir yn swyddogion anweithredol), Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Cronfa Risg Cymru - cydgyllun hunan-sicrhau ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau penodol.